OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3252

# Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) ac Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) (Diwygio) 2009

**Diwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007(**1**) yn unol â'r paragraff a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r diffiniad "y Rheoliad CE", rhodder y diffiniad canlynol—

"ystyr "y Rheoliad CE" ("*the EC Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd(**2**) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1170/2009 sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2002/46/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rhestrau o fitamin a mwynau a'r ffurfiau arnynt y caniateir eu hychwanegu at fwydydd, gan gynnwys atchwanegiadau bwyd.".

(**1**) O.S. 2007/1984 (Cy.165).
(**2**) OJ Rhif L404, 30.12.2006. t.26.